


# GRŴP COLEGAU NPTC

# LLAWLYFR MYFYRWYR 2024/25

Coleg Afan ▪ Coleg Bannau Brycheiniog ▪ Academi Chwaraeon Llandarcy
Canolfan Ragoriaeth Adeiladwaith Maesteg ▪ Coleg Castell-nedd
Coleg Y Drenewydd ▪ Coleg Pontardawe ▪ Canolfan Adeiladwaith Abertawe

Chwilio NPTC GROUP



# CROESO

Mae'n bleser gennyf eich croesawu i Grŵp Colegau NPTC ac rwy'n falch eich bod wedi dewis i gymryd eich camau addysg nesaf gyda ni. Yr wyf yn siŵr y bydd eich amser yn y Coleg yn bleserus, yn llwyddiannus ac y byddwch yn cyflawni eich nodau personol.

I'r rhan fwyaf ohonoch, bydd y coleg yn brofiad newydd. Nid yw'r Coleg yn ymwneud ag astudio yn unig, er mai dyna ddylai fod eich prif reswm dros fod yma, mae hefyd yn gam mawr ar y ffordd i annibyniaeth a'ch taith i'r brifysgol neu i gyflogaeth. Mae gennym staff rhagorol ac ymroddgar a fydd yn rhoi i chi'r holl gefnogaeth a'r arweiniad sydd eu hangen arnoch, tra ar yr un pryd yn cynnig y cyfle i chi weithio ac astudio mewn amgylchedd aeddfed. Mae gennym hefyd ganlyniadau rhagorol ac adroddiadau gwych gan Estyn. Mae ein Tîm Cymorth i Fyfyrwyr wedi cyrraedd rhestr fer Gwobrau AB Times Education Supplement (TES) eleni ar gyfer eu Cymorth i Fyfyrwyr, felly gallwch fod yn wirioneddol sicr eich bod mewn dwylo da ac na allech chi fod wedi gwneud dewis gwell! Edrychaf ymlaen at gwrdd â chi a dymunaf yn dda i chi yn eich astudiaethau yn y coleg ac yn eich gyrfa yn y dyfodol.

## MANYLION CYSWLLT DEFNYDDIOL

**Prif Switsfwrdd Grŵp Colegau NPTC**
**0330 818 8100 ar gyfer holl safleoedd y Coleg**

**Ymholiadau am Gyrsiau a Cheisiadau:**
**admissions@nptcgroup.ac.uk**

**Cymorth, Cyngor ac Arweiniad i Fyfyrwyr:**
**studentsupport@nptcgroup.ac.uk**

## DYDDIADAU'R TYMHORAU

| | |
|---|---|
| TYMOR YR HYDREF | 02/09/2024 – 18/12/2024 |
| HANNER TYMOR | 28/10/2024 – 01/11/2024 |
| TYMOR Y GWANWYN | 06/01/2025 – 11/04/2025 |
| HANNER TYMOR | 24/02/2025 – 28/02/2025 |
| TYMOR YR HAF | 28/04/2025 – 21/07/2025 |
| HANNER TYMOR | 26/05/2025 – 30/05/2025 |



**Mark Dacey**
Prif Weithredwr,
Grŵp Colegau NPTC



# GWYBODAETH AM GYRSIAU

## BYWYD YN Y COLEG

Bydd bywyd yn y Coleg yn ymddangos yn wahanol iawn i'r ysgol. Mae'n debygol bod y campws yn fwy na safle eich ysgol, nid oes rhaid i chi wisgo iwnifform (oni bai bod eich cwrs yn ei gwneud yn ofynnol i chi wneud hynny) ac nid oes unrhyw glychau na swnwyr. Efallai y bydd bylchau yn eich amserlen a gallech ddechrau a gorffen ar wahanol adegau ar wahanol ddyddiau o'r wythnos. Lle bynnag y bo modd, argymhellir eich bod yn defnyddio unrhyw amser sbâr i gwblhau gwaith cartref/adolygu ar gyfer eich cyrsiau yn ystod yr amser hwn. Hefyd, nid yw'n ddoeth trefnu gwyliau yn ystod y tymor er mwyn sicrhau bod eich cwrs astudio yn cael ei gwblhau'n llwyddiannus.

## RHAGLEN GYNEFINO

Ar ôl i chi ymrestru yn y coleg byddwch yn derbyn rhaglen gynefino drwyadl gyda'ch tiwtor personol/cydlynydd cwrs, pan fydd dulliau cyflwyno, amserlenni ac ati yn cael eu trafod yn fanwl. Bydd hyn yn eich helpu i ymgyfarwyddo a deall y ffordd y mae'r Coleg yn gweithredu a sut y gallwch wneud defnydd llawn o'r cyfleoedd a'r cyfleusterau a gynigir. Mae cynefino'n dechrau ar bob safle ar **2 Medi**.

Ar ôl ymrestru, byddwch yn cael rhif myfyriwr a chyfrinair unigryw. Mae'n bwysig eich bod chi'n eu cofio nhw. Byddwch yn defnyddio'r rhain i fewngofnodi i holl systemau ac adnoddau'r coleg.

Os ydych yn cael trafferth mewngofnodi ac angen help i ailosod eich cyfrinair, e-bostiwch: **itservices@nptcgroup.ac.uk**

## CAEL EICH DYFAIS EICH HUN (CEDH)

Bydd angen i chi gael mynediad i ddyfais ddigidol i gwblhau eich cwrs, a allai fod yn gymysgedd o sesiynau wyneb yn wyneb yn y coleg a dysgu ar-lein. Bydd y dysgu ar-lein weithiau'n cael ei harwain gan diwtor ac weithiau byddwch chi'n cael tasgau penodol i fwrw ymlaen â hwy eich hun wrth astudio'n annibynnol. Mae'r Coleg wedi creu amgylchedd dysgu lle gallwch ddysgu ar y campws ac o gartref. Bydd mynediad at ddyfais addas gartref yn bwysig. Dyfais addas yw gliniadur, netbook, iPad neu dabled sydd â gallu di-wifr. Mae gan Grŵp Colegau NPTC Wi-Fi ar bob safle a bydd yn parhau i ddarparu adnoddau TG arbenigol.

Ar ôl ymrestru, darperir cyfrif Microsoft 365 i bob myfyriwr. Mae Microsoft 365 yn wasanaeth seiliedig ar gwmwl sy'n cynnwys Word, Excel, PowerPoint, OneDrive, OneNote a Teams. Gallwch chi lawrlwytho, gosod a defnyddio Office ar eich dyfais bersonol, a mewngofnodi i Microsoft 365 gan ddefnyddio eich enw defnyddiwr a chyfrinair cydweithiwr. Gallwch gael mynediad i'ch gwaith coleg a'ch ffeiliau wedi'u cadw o unrhyw le sydd â chysylltiad â'r rhyngrwyd gan ddefnyddio Microsoft 365 a Moodle – Rhith-amgylchedd Dysgu'r Coleg - VLE.

Mae cyfrifiaduron personol a gliniaduron ar gael ym mhob un o lyfrgelloedd y coleg i chi eu defnyddio, y gallwch gael mynediad atynt gyda'ch manylion mewngofnodi coleg. Mae gliniaduron manyleb uchel gyda meddalwedd arbenigol ar gyfer myfyrwyr Peirianneg a'r Cyfryngau ar gael i'w defnyddio yn y llyfrgell.

Os nad oes gennych ddyfais ddigidol fel gliniadur neu chromebook sy'n addas i ddibenion addysgol eisoes ac na allwch brynu un, efallai y byddwch yn gymwys i fenthyg offer gan y Coleg.

Mae offer benthyg yn parhau'n eiddo i'r Coleg ond byddwch yn gallu mynd ag ef adref yn ogystal â'i ddefnyddio ar y campws pan fyddwch yn dod i wersi.

Rhoddir blaenoriaeth i fyfyrwyr sydd fwyaf mewn angen. Myfyrwyr â blaenoriaeth yw'r rhai sydd yng Ngofal yr Awdurdod Lleol, Ymadawyr Gofal, Gofalwyr, Oedolion Ifanc sy'n Ofalwyr, neu sydd ag Angen Dysgu Ychwanegol, yn gymwys am y LCA/GDLIC ac wedi gwneud cais am Gronfa Ariannol Wrth Gefn y Coleg.

I gael gwybod mwy neu drafod eich cymhwystra am gymorth drwy'r Cynllun Benthyciadau Digidol, gyrrwch e-bost:
**digitalloans@nptcgroup.ac.uk**
Bydd ceisiadau am fenthyg dyfais yn agor ym mis Medi 2024.

## TIWTORIAID PERSONOL A CHYDLYNWYR CWRS

Eich tiwtor personol neu gydlynydd y cwrs fydd y pwynt cyswllt cyntaf i chi drafod unrhyw faterion neu bryderon. Mae'n hanfodol eich bod yn mynychu tiwtorial bob wythnos.

Mae'r tîm Cymorth i Fyfyrwyr sydd wedi'i leoli yn y Parth Myfyrwyr, hefyd ar gael i'ch cefnogi gydag unrhyw bryderon neu ofidion a allai godi. Byddant yn ymdrechu i sicrhau eich bod yn mwynhau amser hapus a llwyddiannus tra byddwch yn astudio.

## GWEITHIO AR-LEIN - AWGRYMIADAU AR GYFER MYFYRWYR

Gall rhai cyrsiau gynnwys cymysgedd o ddysgu wyneb yn wyneb ac ar-lein:

### Cadw'n Drefnus

Os oes angen i chi rannu cyfrifiaduron gyda'r bobl yn eich cartref, cytunwch ar amserlen sy'n gweithio i bawb.


### Grŵp Sgwrsio Ar-lein

Sefydlwch grŵp sgwrsio dosbarth. Cofiwch gynnwys eich dosbarth i gyd ac i ddilyn y cod ymddygiad myfyriwr bob amser pan fyddwch ar-lein: **https://moodle.nptcgroup.ac.uk/course/view.php?id=2527**

### Terfynau amser

Rhaid i chi gadw at derfynau amser a chwblhau gwaith a osodwyd gan eich tiwtoriaid. **Rhowch eich enw, dyddiad a 'Dyma fy ngwaith' bob tro ar ddiwedd eich gwaith.**






# Cymraeg yn y Coleg

Mae'r Gymraeg a diwylliant Cymru yn rhan bwysig o ethos Grŵp Colegau NPTC. Mae'r Coleg yn ymwybodol o sut y gall bod yn ddwyieithog fod o fudd i chi mewn addysg, yn y gweithle ac mewn bywyd bob dydd Mae'r ddarpariaeth yn ehangu ar draws llawer o'n meysydd pwnc, gan roi'r cyfle a'r dewis i chi astudio drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog yn yr ystafell ddosbarth neu ar eich lleoliad gwaith.

Rydym yma i'ch cefnogi os ydych yn dymuno cael tiwtor personol sy'n siarad Cymraeg, astudio yn Gymraeg, cwblhau eich aseiniadau yn Gymraeg, sefyll eich arholiadau yn Gymraeg neu dderbyn deunyddiau ac adnoddau eich cwrs yn Gymraeg tra'n astudio gyda ni yn y Coleg... chi piau'r dewis. Byddwn hefyd yn eich annog fel myfyriwr di-Gymraeg neu ddysgwr Cymraeg i ddatblygu eich sgiliau iaith Gymraeg, gan roi gwell cyfleoedd cyflogaeth i chi yn y dyfodol.

Os nad ydych yn dymuno astudio trwy gyfrwng y Gymraeg ond eisiau cynnal eich sgiliau iaith Gymraeg, peidiwch â phoeni; rydym yn cynnal llawer o weithgareddau hwyliog drwy gydol y flwyddyn a fydd yn rhoi'r cyfle i chi ddefnyddio eich Cymraeg beth bynnag eich lefel iaith ... Peidiwch â bod yn swil – siaradwch Gymraeg!

Mae'r symbol hwn ar dudalennau cwrs yn nodi y gellir cynnal rhai cyrsiau, modiwlau neu agweddau ar gyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:
**cymraeg@nptcgroup.ac.uk**



# PARTH MYFYRWYR

Mae pob myfyriwr yng Ngrŵp Colegau NPTC yn bwysig i ni ac rydym yn mynd yr ail filltir i sicrhau bod yr amser yr ydych yn ei dreulio yn y Coleg yn gynhyrchiol ac yn bleserus.

Mae'r Parth Myfyrwyr yn fan lle gall pob myfyriwr dderbyn help, cyngor a chefnogaeth. Mae staff yn y Parth Myfyrwyr yn darparu llawer o wasanaethau cymorth sy'n sail i'ch taith ddysgu, gan gynnwys:

- Y broses ymgeisio a derbyn
- Ymrestru a chynefino
- Cyllid Myfyrwyr a Chludiant (Gweler tudalennau 7-8 am ragor o wybodaeth)
- Arweiniad a gyrfaoedd
- Cymorth astudio
- Anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a chymorth anabledd
- Cymorth Pontio
- Cwnsela a diogelu
- Swyddogion Lles
- Hyfforddwyr Sgiliau Astudio

**A llawer mwy hefyd! Galwch heibio i'n gweld ni neu gyrrwch e-bost: studentsupport@nptcgroup.ac.uk**

Mae timau medrus yn gweithio yn y Parthau Myfyrwyr sy'n tynnu ynghyd agweddau allweddol ar weithgareddau. Mae'r timau wedi'u gwasgaru ar draws safleoedd y Coleg sy'n golygu y gofelir am fyfyrwyr ym mhob un o'r prif bwyntiau mynediad i'r Coleg.

Os oes angen cymorth ac arweiniad ychwanegol arnoch neu fod gennych bryderon sy'n peri gofid i chi, mae'r tîm proffesiynol a chyfeillgar yno i'ch helpu a'ch cefnogi. Gallant gynnig cyngor, eiriol a chyfeirio myfyrwyr at staff a sefydliadau partner a all helpu.

## SWYDDOGION LLESIANT

Mae ein tîm o swyddogion llesiant wedi'u lleoli yn y Parthau Myfyrwyr ar draws holl brif safleoedd y coleg. Maent yn ymroddedig i gefnogi myfyrwyr sy'n wynebu heriau o fewn a thu allan i amgylchedd y coleg. Gan weithio ar y cyd â thiwtoriaid academaidd a hyfforddwyr sgiliau astudio, mae'r swyddogion llesiant yn helpu cefnogi presenoldeb, cyrhaeddiad a chynnydd myfyrwyr.

**Yr Hyn Rydym yn ei Gynnig:**

- **Cefnogaeth Gyfannol:** Cymorth gyda heriau personol ac academaidd.
- **Cydweithio:** Cydlynu â gwasanaethau cymdeithasol, tai, a gwasanaethau cymorth arbenigol i ddarparu cefnogaeth gynhwysfawr.

**Sut i Gysylltu â Ni:**

- **Trwy Eich Tiwtor:** Trafodwch eich anghenion gyda'ch tiwtor personol.
- **Ymweld:** Galwch heibio'r parth myfyrwyr am gymorth.
- **E-bost:** studentwellbeing@nptcgroup.ac.uk

**Mae ein tîm yma i gefnogi eich llesiant a'ch llwyddiant academaidd.**

## HYFFORDDWYR SGILIAU ASTUDIO

Gwella Eich Perfformiad Academaidd gyda Hyfforddiant Sgiliau Astudio.

Mae hyfforddwyr sgiliau astudio'n gweithio gyda myfyrwyr i fireinio eu strategaethau astudio, gan eu galluogi i gyflawni graddau gwell a mwyafu eu potensial academaidd. Trwy sesiynau un-i-un personol neu weithdai grŵp bach, mae'r hyfforddwyr yn darparu cefnogaeth hanfodol sydd wedi'i theilwra i anghenion unigol.

**Y Gwasanaethau a Gynigir:**

- **Paratoi ar gyfer Arholiadau:** Dysgu technegau effeithiol i astudio a pharatoi ar gyfer arholiadau.
- **Rheoli Gwaith Cwrs:** Datblygu strategaethau i drefnu a rheoli gwaith cwrs yn effeithlon.
- **Ffocws a Chymhelliant:** Datblygu'r sgiliau i barhau i ganolbwyntio a chynnal cymhelliant trwy gydol eich astudiaethau.

**Cysylltu â ni:**

- **E-bost:** studyskillscoach@nptcgroup.ac.uk
- **Ymweld:** Galwch heibio un o'r parthau myfyrwyr a gofynnwch am apwyntiad.

**Mae'r tîm hyfforddi sgiliau astudio'n barod i'ch helpu i lwyddo yn eich addysg!**



## CYNORTHWYWYR GWASANAETH MYFYRWYR A BUSNES

Gall y Cynorthwywyr Gwasanaeth Myfyrwyr a Busnes gynorthwyo a chynghori ar geisiadau ar gyfer y Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA), Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (GDLIC), a'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn (CAWG). Gall y tîm hefyd roi cyngor ar gludiant, absenoldebau myfyrwyr a chyhoeddi llythyrau prawf astudio, defnyddir y rhain yn aml i hawlio gostyngiad treth gyngor. Gellir cysylltu â nhw yn **studentsupport@nptcgroup.ac.uk**

## CYMORTH ASTUDIO

Mae'r tîm Cymorth Astudio yn cynnig amrywiaeth eang o gymorth i helpu myfyrwyr i gyrraedd eu llawn botensial, cael mynediad i'r rhaglen ddysgu o'u dewis a chymryd rhan yn llawn ynddi Gall pob myfyriwr gael cymorth gan y tîm Cymorth Astudio, gyda chymorth, cyngor ac arweiniad arbenigol ar gael i fyfyrwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a/neu anableddau.

Mae cymorth astudio ar gael i fyfyrwyr ar bob safle ac mae'r tîm yn cynnwys:

- Aseswr ADP - yn asesu myfyrwyr ar gyfer trefniadau mynediad arholiad ac yn rhoi cymorth i ddysgwyr a staff i hwyluso llwyddiant
- Cydlynydd Technoleg Cynorthwyol
  - yn darparu cymorth a strategaethau i fyfyrwyr sydd ag ystod o anghenion gan gynnwys synhwyraidd, corfforol ac anghenion dysgu penodol
  - Yn nodi ac yn darparu unrhyw adnoddau neu dechnoleg gynorthwyol sydd eu hangen ar gyfer dysgu, e.e. meddalwedd arbenigol a gliniaduron/iPads.
- Cydlynydd Niwroamrywiaeth - yn darparu cefnogaeth arbenigol ac wedi'i theilwra i alluogi'r rhai sy'n nodi bod ganddynt gyflyrau megis Awtistiaeth i wneud cynnydd gyda'u dysgu
- Swyddog Pontio ac Adolygu - yn cefnogi rhai sydd ag ADY wrth bontio o'r ysgol i'r coleg, o fewn y coleg, ac wrth symud ymlaen at gyflogaeth, addysg uwch neu hyfforddiant
- Cynorthwywyr Sgiliau Astudio - yn rhoi cymorth ystafell ddosbarth cyffredinol ac arbenigol i alluogi mynediad i ddysgu.

## DATGANIAD ANABLEDD

Mae Grŵp Colegau NPTC yn ystyried o ddifrif yr angen i wneud y Coleg yn hygyrch ac yn groesawgar i fyfyrwyr ag anableddau o bob math. Byddwn yn trafod anghenion pob darpar fyfyriwr a helpu os gallwn. Os na allwn, byddwn yn dweud hynny ac yn ceisio cynnig cyngor ar atebion amgen. I gael rhagor o gyngor, arweiniad a chymorth, e-bostiwch: **ALN@nptcgroup.ac.uk**

## STUDENT KOOTH

Mae Grŵp NPTC yn gweithio gyda Student Kooth i ddarparu llwyfan llesiant ar-lein sy'n rhedeg ochr yn ochr â'r cymorth sydd eisoes ar gael yn y coleg. Mae Student Kooth yn darparu gwasanaeth 24/7 am ddim, gan gynnwys nosweithiau a phenwythnosau. Mae'r gwasanaeth yn ddienw ac yn gyfrinachol ac nid oes unrhyw restrau aros nac atgyfeiriadau.

Bydd angen i fyfyrwyr gofrestru gyda Student Kooth fel rhan o'r cyfnod cynefino.

Mewngofnodwch i **Student.kooth.com** gan ddefnyddio eich cyfeiriad e-bost coleg, gellir cael mynediad iddo trwy ffôn symudol, llechen, cyfrifiadur pen desg, ac mae'n darparu:

- Gwybodaeth, gweithgareddau, adnoddau ac offer hunanofal sydd ar gael i'w lawrlwytho
- Nodwedd sgwrsio i siarad â chwnsler sydd ar gael yn rhwydd
- Cylchgrawn ar-lein i gyflwyno storïau neu ysgrifennu erthyglau
- Y cyfleuster i drefnu sesiynau gyda chwnsler a enwir
- Amrywiaeth o fforymau i gynnig cymorth gan gymheiriaid wedi'i hwyluso
- Nodwedd negeseua i gysylltu â'r gwasanaeth
- Grwpiau trafod byw



## GWASANAETH CWNSELA

Mae gan y Coleg dîm o gwnsleriaid â chymwysterau proffesiynol sy'n darparu gwasanaeth cyfrinachol i fyfyrwyr. Mae'r Cwnsleriaid yn cadw at God Moeseg y British Association for Counselling and Psychotherapy (BACP) ac mae ganddynt brofiad helaeth mewn amrywiaeth eang o feysydd.

Darperir gwasanaeth cwnsela ar fodel chwe sesiwn y gellir cael mynediad ato dros teams/wyneb yn wyneb ac yn cysylltu'n agos â phartneriaid allanol arbenigol. Ceir mynediad i'r gwasanaeth trwy broses atgyfeirio: **studentwellbeing@nptcgroup.ac.uk**

## CYMORTH ARBENIGOL

Mae gan y Coleg Berson Dynodedig sy'n gweithredu fel eiriolwr ac yn rhoi cymorth i

- Ofalwyr ac oedolion ifanc sy'n gofalu
- pobl ifanc sy'n byw mewn gofal, y rhai sydd â phrofiad o ofal a myfyrwyr sydd wedi ymddieithrio
- cyn-aelodau'r lluoedd arfog a phlant teuluoedd sy'n gwasanaethu
- myfyrwyr sy'n gweithio gyda'r gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid ac ymyrraeth gynnar
- myfyrwyr â statws ffoadur/ceisiwr lloches ar eu pen eu hunain

Gall myfyrwyr fod yn gymwys i gael cymorth ariannol a llesiant ychwanegol yn ystod eu hamser yn y Coleg.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth e-bostiwch: **studentsupport@nptcgroup.ac.uk**

## COFNODI ABSENOLDEB

### Salwch

- Mae'n rhaid i fyfyrwyr gofnodi eu salwch ar: **https://ebsontrackprospect.nptcgroup.ac.uk** cyn 9.30am ar gyfer pob diwrnod o salwch.
- Mae angen tystysgrif meddyg ar gyfer absenoldebau o fwy na 5 diwrnod.
- Mae'r LCA yn stopio os yw'r salwch yn para am fwy na 3 wythnos.
- Cynhelir ymchwiliad i lefelau uchel o salwch, gallai'r LCA gel ei ohirio.

Rhaid cofnodi Absenoldebau Awdurdodedig ymlaen llaw yn **https://ebsontrackprospect.nptcgroup.ac.uk.** Dim ond 1 cyfnod o absenoldeb a ganiateir ym mhob hanner tymor a chynhelir ymchwiliad i lefelau uchel o absenoldebau awdurdodedig.

### Mae Absenoldebau Awdurdodedig yn cynnwys

- Apwyntiadau meddygol na ellir eu trefnu y tu allan i oriau coleg – tystiolaeth yn ofynnol.
- Cyfweliad cyflogaeth neu ymweliad prifysgol – tystiolaeth yn ofynnol.
- Lleoliad gwaith fel rhan o'r cwrs – tystiolaeth yn ofynnol gan diwtor.
- Mynd i gyfarfod llys/prawf – tystiolaeth yn ofynnol.
- Prawf gyrru a theori – tystiolaeth yn ofynnol.
- Cyfarfod cynrychiolydd myfyrwyr – tystiolaeth yn ofynnol gan yr Uwch Swyddog: Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Cyfarfod disgyblu myfyrwyr – tystiolaeth yn ofynnol gan Bennaeth yr Ysgol
- Tarfu ar gludiant - nid oes angen tystiolaeth.
- Cyfrifoldebau gofalu – nid oes angen tystiolaeth.

### Absenoldebau Anawdurdodedig

- Gwyliau, dylid cymryd y rhain allan o'r tymor. Mae'n rhaid gofyn am y rhain gan eich tiwtor.
- Cyflogaeth nad yw'n rhan o'r cwrs.
- Pen-blwyddi neu ddathliadau teuluol.
- Gwersi gyrru

Anogir myfyrwyr i ddarllen y Polisi Presenoldeb yn llawn. Mae hwn ar gael ar gais yn eich Parth Myfyrwyr.

Mae'n bosib y caiff cyllid ei ddileu/ei atal yn ôl disgresiwn Cymorth i Fyfyrwyr pan fydd myfyriwr yn methu â mynychu'n rheolaidd.

- Ni fydd GDLIC yn cael ei dalu oni bai bod presenoldeb yn uwch na 90%.
- Ni fydd y LCA yn cael ei dalu oni bai y cyflawnir 100%, bob wythnos.

Gallwch gysylltu â Chymorth Myfyrwyr yn: **studentsupport@nptcgroup.ac.uk**

# CYLLID MYFYRWYR A CHLUDIANT

## LWFANS CYNHALIAETH ADDYSG (LCA): 16-18 OED

- £40 yr wythnos.
- Isafswm cyfnod astudio o 12 awr yr wythnos am o leiaf deg wythnos.
- Mae'n rhaid i incwm eich aelwyd fod fel a ganlyn:
  **£20,817** neu lai os mai chi yw'r unig berson ifanc mewn addysg amser llawn yn yr aelwyd.
  NEU
  **£23,077** neu lai os oes pobl ifanc eraill yn eich aelwyd sydd o dan 16 oed ac yn gymwys am fudd-dal plant.
  NEU
  **£23,077** neu lai os oes pobl ifanc eraill rhwng 16-20 oed yn eich aelwyd, sydd mewn addysg amser llawn ac yn gymwys am fudd-dal plant.
- Cwymp mewn incwm? Gallwch chi wneud cais o hyd
- Gwnewch gais yma Cyllid Myfyrwyr Cymru.

## GRANT DYSGU LLYWODRAETH CYMRU (GDLLC)

- Taliad am bob tymor, gweler y tabl isod
- Rhaid i chi astudio isafswm o **275** awr
- Rhaid i incwm eich cartref fod yn **£18,370** neu'n is

- Cwymp mewn incwm? Gallwch chi wneud cais o hyd
- Gwnewch gais yma Cyllid Myfyrwyr Cymru

| Incwm Blynyddol yr Aelwyd | Rhan-amser (275-499 awr) | Amser llawn (500+ awr) |
|---|---|---|
| Hyd at £6,120 | £750 | £1,500 |
| £6,121 - £12,235 | £450 | £750 |
| £12,236 - £18,370 | £300 | £450 |
| £18,371 ac uwch | £0 | £0 |

## CRONFA ARIANNOL WRTH GEFN 16+ OED

- Mae'r Gronfa Wrth Gefn Ariannol yn rhoi cymorth i fyfyrwyr tuag at:
  - Brydau yn y Coleg
  - Offer ar gyfer y Cwrs
  - Gofal Plant
  - Teithiau Cwrs
  - Taliadau Brys
  - Cludiant

Mae Ceisiadau Cludiant yn seiliedig ar amgylchiadau unigol.
Gallwch ymgeisio am gyllid CAWG trwy eich cyfrif uniol prospect.

## CYLLID ADDYSG UWCH

Ar gyfer unrhyw ymholiadau mewn perthynas â chyllid AU e-bostiwch: HEadmin@nptcgroup.ac.uk

## FY NGHERDYN TEITHIO: 16-21 OED

- 1/3 oddi ar gostau teithio
- Am ddim
- Gwnewch Gais Yma Fy Ngherdyn Teithio
- Llinell Gymorth Fy Ngherdyn Teithio - **0300 200 2233**

## MTICKET

- Gall myfyrwyr sy'n byw yng Nghastell-nedd Port Talbot/ Abertawe lawrlwytho'r Ap First Bus ar eich ffôn. Bydd hyn ond yn berthnasol i fyfyrwyr sy'n mynychu Coleg Castell-nedd, Coleg Afan, Academi Chwaraeon Llandarcy, Canolfan Adeiladwaith Abertawe Coleg Pontardawe neu Ganolfan Ragoriaeth Adeiladwaith Maesteg,.
- Am docynnau Tymor/Blwyddyn - Cliciwch 'Mtickets' ar y gwaelod - 'buy a ticket' - Dewiswch South and West Wales NPTC Group of Colleges Tickets. Cofiwch ddewis yr opsiwn Fy Ngherdyn Teithio, os yn berthnasol.
- Dim ond yn ystod y tymor y gellir defnyddio tocynnau tymor o ddydd Llun i ddydd Gwener tan 8pm. Gellir defnyddio tocynnau blynyddol drwy'r flwyddyn, gan gynnwys ar benwythnosau.
- Mae tocynnau eraill ar gael o adran 'Swansea Bay' yr ap.
- Llinell gymorth MTicket – **0330 094 7577**
- Mae prisiau yn ddarostyngedig i ddisgresiwn First Cymru a gallent newid ar fyr rybudd. Bydd eich mTicket yn gweithio ar fysiau South Wales Transport.

## MYFYRWYR POWYS 16-18 OED

Mae'n bosib y bydd myfyrwyr sy'n byw mwy na 3 milltir o'u campws yn cael tocyn bws Cyngor Sir Powys wrth ymrestru.

# CANLLAW TALIADAU LCA

Mae'r tabl isod yn dangos pryd y gellir disgwyl taliadau LCA ar gyfer cyfnodau penodol o bresenoldeb.
Dim ond ar ôl i chi lofnodi eich cytundeb dysgu y bydd taliadau'n dechrau (ar gael drwy'r Hyb Dysgwyr). Ni fyddwch yn cael eich talu am unrhyw gyfnod nad ydych yn mynychu eich cwrs nac am wyliau'r Coleg.
Am bob ymholiad ynglŷn â thaliadau, cysylltwch â **studentsupport@nptcgroup.ac.uk**

| PRESENOLDEB WYTHNOS(AU) YN DOD I BEN | CEWCH EICH TALU AR |
|---|---|
| 06 MEDI a 13 MEDI 2024 | 25 MEDI 2024 |
| 20 MEDI a 27 MEDI 2024 | 07 HYDREF 2024 |
| 04 HYDREF a 11 HYDREF 2024 | 21 HYDREF 2024 |
| 18 HYDREF a 25 HYDREF 2024 | 04 TACHWEDD 2024 |
| 08 TACHWEDD 2024 | 18 TACHWEDD 2024 |
| 15 TACHWEDD a 22 TACHWEDD 2024 | 02 RHAGFYR 2024 |
| 29 TACHWEDD a 06 RHAGFYR 2024 | 16 RHAGFYR 2024 |
| 13 RHAGFYR a 20 RHAGFYR 2024 | 30 IONAWR 2025 |
| 10 IONAWR a 17 IONAWR 2025 | 27 IONAWR 2025 |
| 24 IONAWR a 31 CHWEFROR 2025 | 10 CHWEFROR 2025 |
| 07 CHWEFROR a 14 CHWEFROR 2025 | 24 CHWEFROR 2025 |
| 21 CHWEFROR 2025 | 10 MAWRTH 2025 |
| 07 MAWRTH a 14 MAWRTH 2025 | 24 MAWRTH 2025 |
| 21 MAWRTH a 28 MAWRTH 2025 | 07 EBRILL 2025 |
| 11 EBRILL 2025 | 22 EBRILL 2025 |
| 18 EBRILL a 25 EBRILL 2025 | 06 MAI 2025 |
| 02 MAI a 09 MAI 2025 | 19 MAI 2025 |
| 16 MAI a 23 MAI 2025 | 02 MEHEFIN 2025 |
| 06 MEHEFIN 2025 | 16 MEHEFIN 2025 |
| 13 MEHEFIN a 20 MEHEFIN 2025 | 30 MEHEFIN 2025 |
| 27 MEHEFIN a 04 GORFFENNAF 2025 | 14 GORFFENNAF 2025 |

## CYNNYDD MYFYRWYR

Os ydych wedi ymrestru ar raglen dwy flynedd ac yn bodloni'r meini prawf cynnydd ar ddiwedd eich blwyddyn gyntaf o astudio, rydych yn gymwys i symud ymlaen i'r ail flwyddyn. Bydd eich tiwtor yn esbonio'r broses ail-ymrestru yn ystod eich tiwtorial. Bydd hyn yr un peth os ydych yn symud ymlaen at lefel nesaf eich cwrs.

Os byddwch yn penderfynu newid cwrs bydd angen i chi gwblhau cais newydd ar-lein a threfnu cyfweliad ar gyfer eich cwrs newydd. Mae ceisiadau ar-lein yn agor ym mis Hydref. Am ragor o wybodaeth, gyrrwch e-bost:
**admissions@nptcgroup.ac.uk**

## TYSTYSGRIFAU ARHOLIADAU

Cyfrifoldeb y myfyriwr yw casglu tystysgrifau unwaith y bydd arholiadau wedi'u cwblhau. **Ni chaiff tystysgrifau eu postio at fyfyrwyr.** Gall myfyrwyr gysylltu â'r swyddog arholiadau i gadarnhau pan y disgwylir i dystysgrifau gyrraedd y coleg.

Rhaid i fyfyrwyr ddangos prawf adnabod cyn y gellir rhoi tystysgrifau iddynt. Gall hyn fod yn gerdyn banc, pasbort neu drwydded yrru.

Mewn rhai amgylchiadau, gellir casglu tystysgrifau ar ran y myfyriwr. Yn y fath achosion, rhaid i'r myfyriwr roi llythyr sy'n cynnwys ei rif adnabod myfyriwr, enw, cyfeiriad, dyddiad geni a rhestr o dystysgrifau sydd i'w casglu. Rhaid i'r llythyr hefyd gynnwys manylion y person y maent yn ei awdurdodi i gasglu'r tystysgrifau.

Rhaid i'r person enwebedig hefyd ddangos prawf adnabod h.y. cerdyn banc, trwydded yrru neu basbort

Caiff tystysgrifau eu cadw yn y coleg am dair blynedd a'u dinistrio ar ôl y dyddiad hwn. Gellir cael tystysgrifau amnewid trwy gysylltu â'r cyrff dyfarnu'n uniongyrchol, codir ffi am hyn.

Am ragor o wybodaeth, gyrrwch e-bost:
**exams@nptcgroup.ac.uk**

## GYRFA CYMRU

Gellir cysylltu â Chynghorwyr Gyrfa Cymru i ddarparu cyngor ac arweiniad annibynnol i fyfyrwyr mewn perthynas â gyrfaoedd a dilyniant.
Ewch i: **gyrfacymru.llyw.cymru** neu ffoniwch **0800 028 4844**. Bydd cynghorwyr hefyd yn bresennol yn y Coleg yn ystod y cyfnod ymrestru.

## GWASANAETHAU LLYFRGELL

Yn ein coleg, rydym yn ymfalchïo mewn darparu llyfrgelloedd wedi'u cyfarparu'n dda gyda'r adnoddau a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnoch i lwyddo yn eich astudiaethau. Mae eich llyfrgelloedd wedi'u lleoli ar draws colegau Afan, Bannau Brycheiniog, Castell-nedd, Y Drenewydd ac Y Gaer, ac mae croeso i bob myfyriwr ddefnyddio unrhyw un o'n cyfleusterau.

Gall myfyrwyr ar ein safleoedd eraill hefyd gael mynediad at gymorth llyfrgell ac adnoddau ar-lein. Mae eich llyfrgelloedd yma i'ch cefnogi. Dyma'r hyn y gallwch ei ddisgwyl:

**1. Mynediad at Gyfoeth o Adnoddau**
- **Llyfrau:** benthyg y llyfrau sy'n berthnasol i'ch cyrsiau'n uniongyrchol o'n llyfrgelloedd.
- **Llyfrgell Ar-lein:** Mynediad 24 awr i e-lyfrau a gwybodaeth ar-lein o ansawdd uchel trwy ein llyfrgell ddigidol.
- **Canllawiau Pwnc Ar-lein:** eich adnoddau pwnc wedi'i guradu mewn canllaw penodol.

**2. Mannau Astudio wedi'u Teilwra i'ch Anghenion**
- **Astudiaeth Grŵp:** gweithio ar brosiectau grŵp gyda chymheiriaid dosbarth yn ein mannau cydweithredol y gellir eu neilltuo.
- **Parthau Tawel:** dod o hyd i fan tawel i ganolbwyntio ar eich astudiaethau.
- **Astudiaeth Dawel:** ar gyfer astudiaeth unigol heb unrhyw beth i dynnu'ch sylw.

**3. Technoleg ar Flaenau Eich Bysedd**
- Cyfrifiaduron a Gliniaduron: mynediad i gyfrifiaduron personol a gliniaduron.
- Cael Eich Dyfais Eich Hun: cysylltu â'n Wi-Fi coleg gan ddefnyddio'ch dyfais eich hun.

**4. Cyfarwyddyd Arbenigol**
Mae ein Cynghorwyr Llyfrgell profiadol yma i'ch cynorthwyo gyda:
- **Sgiliau Ymchwil:** dysgu sut i ymchwilio'n effeithiol a defnyddio ffynonellau gwybodaeth academaidd.
- **Adalw Gwybodaeth:** darganfod yr adnoddau gorau ar gyfer eich prosiectau a'ch aseiniadau.
- **Cefnogaeth Cyfeirnodi:** eich helpu i ddeall ymddygiad academaidd da a sut i ddyfynnu eich ffynonellau gwybodaeth.
- **Sgiliau Digidol:** cefnogaeth i ddatblygu eich sgiliau TG, cyflwyno'ch gwaith yn greadigol, ac arweiniad ar ddefnyddio AI Cynhyrchiol.

**5. Cefnogaeth Wyneb yn Wyneb ac Ar-lein**
- **Ymweld â Ni:** galwch heibio ein llyfrgelloedd yn bersonol.
- **Sgwrsio Ar-lein dros Teams:** cysylltu â ni ar sgwrs Teams neu drwy'r Hysbysfwrdd Myfyrwyr am gymorth cyflym.

**6. Gwasanaethau Eraill**
- **Argraffu, llungopïo, a rhwymo:** paratoi eich aseiniadau'n hwylus.
- **Argraffydd A1 ar gyfer Posteri:** oes angen i chi greu cyflwyniad syfrdanol neu argraffu eich poster academaidd? Mae gennym bopeth sydd ei angen arnoch.
- **Siop Deunyddiau Ysgrifennu:** prynu eich hanfodion ystafell ddosbarth yn y llyfrgell.
- **Clicio a Chasglu:** neilltuo eich llyfrau ar-lein a'u casglu ar amser sy'n gyfleus i chi.
- **Mannau Diogel:** ardaloedd ar gyfer gweithgareddau llesiant ac ymwybyddiaeth ofalgar.

Am ragor o wybodaeth, gyrrwch e-bost:
**libraries@nptcgroup.ac.uk**

# CYNNWYS MYFYRWYR

## DWEUD EICH DWEUD!

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod myfyrwyr yn cymryd rhan ym mhob agwedd ar fywyd coleg. Mae hyn yn cynnwys gofyn i fyfyrwyr am eich barn ar ein:

- Dysgu ac addysgu
- Ymrestru yn y Coleg (safleoedd y coleg, cyfleusterau a chynaliadwyedd).
  Ymgysylltiad Myfyrwyr (clybiau, cymdeithasau a digwyddiadau).
- Cymorth i Fyfyrwyr (cyllid myfyrwyr, llesiant, cwnsela ac ati).

Mae myfyrwyr wrth wraidd y gwaith o redeg y Coleg o ddydd i ddydd a chynllunio tymor hir, gan sicrhau bod gan bawb lais cyfartal.
Mae digon o gyfleoedd i fyfyrwyr rannu eu barn yn ystod eu hamser yn y Coleg, gan gynnwys:
digwyddiadau, gwerthusiadau dosbarth, grwpiau ffocws, pleidleisio ar-lein, a chyfarfodydd cwrs.
Am ragor o wybodaeth, gyrrwch e-bost:
**studentsupport@nptcgroup.ac.uk**

## GWEITHGAREDDAU CYFOETHOGI, DINASYDDIAETH, CHWARAEON A DIWYLLIANNOL

Mae Grŵp Colegau NPTC yn cynnig mwy nag addysg yn unig i fyfyrwyr. Anogir myfyrwyr i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau cyfoethogi. Mae dewis eang o glybiau, cymdeithasau a thimau ar gael yn amrywio o chwaraeon i weithgareddau diwylliannol.

## RHAGLENNI BWRSARIAETH

Mae'r Coleg yn darparu amrywiaeth o raglenni sy'n ceisio datblygu talentau myfyrwyr er mwyn manteisio i'r eithaf ar botensial a chyfleoedd.

Disgwylir i fyfyrwyr sy'n ymwneud â'r Rhaglenni Bwrsariaeth Myfyrwyr fod yn eiriolwyr dros y Coleg a byddant yn derbyn gwobr ariannol i gydnabod eu hymrwymiad a'u hymdrechion.

## BWRSARIAETHAU

Mae'r Coleg yn seilio ei ddewis o enillwyr ar ba mor dda y mae myfyrwyr o bob ysgol wedi cyflawni ar lefel TGAU a chaiff y dewisiadau hyn eu cadarnhau gan yr ysgolion ar ôl eu dewis. Pan fyddant yn y coleg, mae'n rhaid i enillwyr bwrsariaethau ddangos lefel uchel gyson o ymroddiad i'w hastudiaethau a bod yn barod i gynrychioli'r Coleg mewn gweithgareddau perthnasol, e.e. ymweliadau ag ysgolion a diwrnodau agored.

Gellir hefyd rhoi bwrsariaethau i fyfyrwyr eraill o'n hysgolion tra'n astudio yn y coleg i adlewyrchu cynnydd academaidd a chyfraniadau i fywyd y coleg.

## UNDEB Y MYFYRWYR

Fel myfyriwr yng Ngrŵp Colegau NPTC, byddwch yn dod yn aelod o Undeb y Myfyrwyr yn awtomatig. Mae Undeb y Myfyrwyr yn cael ei rhedeg gan y myfyrwyr, ac fe'i dylunnir i gynrychioli lleisiau dysgwyr addysg bellach ac uwch, ac i ennyn diddordeb myfyrwyr ar draws pob campws mewn cymdeithasu a chyfoethogi diwylliant y coleg. Mae Undeb y Myfyrwyr yn cynnal digwyddiadau ac ymgyrchoedd i ddod â myfyrwyr at ei gilydd a rhoi sbardun i ddiwylliant y coleg – mwy nag addysg yn unig, ffordd o fyw. Ym mis Medi byddwch yn cael y cyfle i ymgeisio am swydd Swyddog Undeb Myfyrwyr, ni waeth p'un a ydych yn fyfyriwr newydd neu'n ddysgwr sy'n dychwelyd, ar unrhyw gampws neu gwrs. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch ag Undeb y Myfyrwyr yn **student-union@nptcgroup.ac.uk** neu anfonwch neges uniongyrchol atom ar Instagram (@nptc.su).




## CYNRYCHIOLWYR MYFYRWYR

Ar ddechrau'r flwyddyn academaidd, mae pob dosbarth yn ethol o leiaf un Cynrychiolydd Myfyrwyr. Mae Cynrychiolwyr Myfyrwyr yn gyfrifol am wrando ar farn, pryderon a phrofiadau eu dosbarth ar faterion gan gynnwys dysgu ac addysgu. Mae Cynrychiolwyr Myfyrwyr yn rhoi adborth mewn cyfarfodydd cwrs, fforymau ysgolion academaidd, a chyfarfodydd 'Senedd' bob tymor gyda Chynrychiolwyr Myfyrwyr eraill. Mae ein cymuned o gynrychiolwyr yn cael cyfleoedd i ymgynghori ar ystod eang o faterion sy'n effeithio ar fywyd yn y coleg ac y tu allan ohono mewn cyfarodydd y Senedd.

Bydd Cynrychiolwyr Myfyrwyr yn cael eu gwahodd i fynychu digwyddiadau hyfforddi, cynadleddau, a digwyddiadau dathlu blynyddol sy'n cynnwys pethau am ddim a rhoddion gwobr. Os hoffech fod yn Gynrychiolydd Myfyrwyr, cysylltwch ag un o diwtoriaid eich cwrs.

## SGILIAU CYFLOGADWYEDD YN Y DYFODOL

Mae'r byd gwaith yn esblygu'n gyflym, ac ymhen 10 mlynedd, mae'n debygol iawn y byddwch chi'n gweithio mewn swydd nad yw'n bodoli ar hyn o bryd! Mae hyn yn golygu y bydd yn rhaid i chi ddarganfod sut i baratoi ar gyfer swydd yn y dyfodol sy'n amhosib ei darogan. Yng Ngrŵp Colegau NPTC byddwn yn integreiddio sgiliau cyflogadwyedd y dyfodol yn eich rhaglen ddysgu fel y gallwch ffynnu yn y byd gwaith yn y dyfodol!

Mae Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau (UKCES) a Fforwm Economaidd y Byd wedi nodi set o sgiliau craidd ac integredig y bydd eu hangen ar weithleoedd:

| Sgiliau Craidd |
|---|
| Llythrennedd (Cymraeg a/neu Saesneg) |
| Rhifedd |
| Sgiliau Digidol |

| Sgiliau Annatod |
|---|
| Gweithio gyda'n gilydd |
| Meddwl yn feirniadol a datrys problemau |
| Hunan-reoli |
| Creadigrwydd, arloesedd a menter |
| Gwneud penderfyniadau |

### Datblygu Sgiliau Craidd

Yn ogystal â'ch prif gymhwyster, bydd eich rhaglen ddysgu wedi'i dylunio i gynnwys y cyfleoedd canlynol lle y bo'n briodol:

- Ymrestru ar raglen ailsefyll TGAU yn seiliedig ar gymwysterau presennol a gofynion o ran cynnydd i'ch cyrchfan yn y dyfodol (Mathemateg, Saesneg/ Cymraeg)
- Cwblhau cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru (Cyfathrebu, Cymhwyso Rhif, Llythrennedd Digidol)
- Uwchsgilio gan ddefnyddio Pecyn Cymorth Sgiliau Hanfodol Cymru (WEST).

### Datblygu Sgiliau Integredig

Gan ddibynnu ar eich maes astudio, bydd sgiliau integredig hefyd yn cael eu datblygu drwy'r rhaglen diwtorialau, ac yn cynnwys y cymwysterau canlynol

- Bagloriaeth Sgiliau Uwch Lefel 3 newydd Cymru
- Cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru (Sgiliau Cyflogadwyedd Hanfodol)

Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch
Advanced Skills Baccalaureate Wales

wjec cbac

Pecyn Cymorth Sgiliau Hanfodol Cymru | Wales Essential Skills Toolkit



TOTUM™

## CERDYN TOTUM

Mae TOTUM yn gerdyn disgownt i fyfyrwyr sy'n rhoi bargeinion gwych i chi drwy gydol y flwyddyn. 10% oddi ar ASOS, 12% oddi ar gardiau rheilffordd 16-25 1 flwyddyn, disgownt 20% gyda National Express, disgownt 10% yn Jack Wills, llwyth o ddisgowntiau Apple a 2 am 1 ar gyfer eich dwy wers yrru gyntaf gyda RED Driving School. Lawrlwythwch yr ap TOTUM yn rhad ac am ddim ac yna i ddatgloi gwerth blwyddyn lawn o ostyngiadau, mae'n costio dim ond £12 - syniad gwych os yw rhywun yn pendroni am beth i'w gael fel anrheg i chi! Nid ar gyfer myfyrwyr Prifysgol yn unig mohono – gall unrhyw un dros 16 oed sy'n astudio mwy na 10 awr yr wythnos ei gael. Lawrlwythwch yr ap yn www.totum.com heddiw a gweld beth sydd ar gael...

CENTERPRISE
GRŴP COLEGAU NPTC GROUP OF COLLEGES

## Canolfan fenter a deori busnes bwrpasol yw Centerprise sydd wedi'i lleoli yng Ngholeg Castell-nedd a Choleg y Drenewydd.

Mae'r ganolfan yn darparu amgylchedd proffesiynol, cefnogol i unigolion sy'n sefydlu eu busnes eu hunain ac mae'n cynnwys mynediad i amrywiaeth o gyfleusterau a chymorth AM DDIM* gan gynnwys:

- Gofod swyddfa â gwasanaeth
- Cyfleusterau rhannu desg dros dro i'r rhai nad oes angen gofod swyddfa amser llawn arnynt
- Cyfeiriad busnes proffesiynol
- Mynediad i TGCh gan gynnwys cyfleusterau ffôn, argraffu a chopïo
- Derbynnydd i ateb galwadau a chyfarch eich cleientiaid
- Cymorth ac arweiniad busnes
- Mynediad i weithdai hyfforddiant arbenigol
- Ystafelloedd cyfarfod gweithredol
- Mynediad i ystafelloedd hyfforddi ag adnoddau cyflawn
- Rhwydweithio a chyfleoedd gweithio ar y cyd
- Mynediad i gyfleusterau reprograffeg
- Parcio am ddim.

## Manylion Cyswllt

Centerprise, Grŵp Colegau NPTC, Heol Dŵr-y-Felin, Castell-nedd, SA10 7RF
www.nptcgroup.ac.uk

CENTERPRISE
BAROD AM YRFA
GRŴP COLEGAU NPTC GROUP OF COLLEGES

## Fel myfyriwr yn y Coleg byddwn yn eich helpu gyda

- ✓ Lleoliadau profiad gwaith
- ✓ Ysgrifennu CV
- ✓ Ffurflenni cais
- ✓ Cyfweliadau
- ✓ Dod o hyd i swydd ran-amser i gyd-fynd â'ch astudiaethau

POB GWASANAETHAU AM DDIM I FYFYRWYR

CENTERPRISE
BAROD AM YRFA
GRŴP COLEGAU NPTC GROUP OF COLLEGES

## Cyflogwr Preswyl

Hoffech chi gael y cyfle i siarad â chyflogwyr yn eich ardal?

Yn meddwl am yrfa, ond â chwestiynau mai dim ond gweithiwr proffesiynol yn y diwydiant sy'n gallu eu hateb?

Gyda chyflogwyr gwahanol bob wythnos, mae ein Rhaglen Cyflogwyr Preswyl yn dod â chyflogwyr a myfyrwyr at ei gilydd, gan roi cyfle i fyfyrwyr adeiladu eu rhwydwaith, ennill gwybodaeth o'r storïau o lwyddiant, a chael cyngor gyrfaol gan weithwyr proffesiynol y diwydiant.

I gael gwybod mwy, gofynnwch i'ch darlithydd neu cysylltwch â ni yn:
Ebost: centerprise@nptcgroup.ac.uk Ffôn: 0330 818 8612 NPTCenterprise

# CADW'N DDIOGEL

## CADW'N DDIOGEL AR-LEIN

Mae'r rhyngrwyd yn ffordd wych o gysylltu â'ch ffrindiau a dysgu pethau newydd, ond mae hefyd yn bwysig cadw'n ddiogel pan fyddwch yn gysylltiedig. Dyma ychydig o ffyrdd i'ch helpu i sicrhau nad ydych chi mewn perygl pan fyddwch chi'n defnyddio'r rhyngrwyd.

Byddwch yn ofalus beth rydych chi'n ei rannu ar-lein
- Pan fyddwch chi'n dewis llun proffil ar gyfer gwefan rhwydweithio cymdeithasol fel Facebook neu Twitter, dylech osgoi lluniau a allai roi cliwiau i ddieithriaid am ble rydych chi'n byw
- Gwiriwch eich gosodiadau preifatrwydd yn rheolaidd
- Meddyliwch am yr hyn y dylid ei rannu yn gyhoeddus a'r hyn na ddylid
- Gwiriwch eich gosodiadau lleoliad - mae rhai gwefannau ac apiau fel Snapchat yn gadael i chi rannu eich lleoliad gyda defnyddwyr eraill
- Dysgwch sut y gallwch chi ofalu am eich ôl troed digidol.

### MEDDYLIWCH CYN I CHI BOSTIO

Peidiwch ag uwchlwytho neu rannu unrhyw beth na fyddech am i'ch rhieni, staff addysgu neu ffrindiau ei weld. Ar ôl i chi wasgu anfon, nid yw'n breifat mwyach. Allwch chi ddim fod yn siŵr pwy fydd yn ei weld yn y pen draw.

### PEIDIO BYTH Â DATGELU EICH CYFRINAIR

Defnyddiwch gyfrineiriau cryf sy'n anodd i eraill eu dyfalu, gan ddefnyddio cymysgedd o lythrennau a rhifau. Cadwch gyfrineiriau i chi'ch hun a newidiwch nhw yn rheolaidd.

### BYDDWCH YN OFALUS I BWY RYDYCH YN SGWRSIO

Os yw rhywun nad ydych yn ei adnabod yn eich ychwanegu fel cyfaill, anwybyddwch nhw a dilëwch eu cais Peidiwch â rhannu gwybodaeth bersonol fel eich cyfeiriad neu'ch rhif ffôn gyda rhywun nad ydych yn ei adnabod a dysgwch am yr arwyddion y mae rhywun yn ceisio eich grŵmio ar-lein.

Os oes gennych unrhyw bryderon, mae gennym staff sydd wedi'u hyfforddi ar Gamfanteisio ar Blant a Diogelwch Ar-lein a fydd yn gallu rhoi cyngor i chi ar beth i'w wneud. Gellir cysylltu â nhw yn **safeguarding@nptcgroup.ac.uk**

### CREU CYMUNED DDYSGU DDIOGEL

Mae'r Coleg yn gweithio gyda Cholegau AB eraill ar draws Cymru a chyda Llywodraeth Cymru i greu amgylchedd dysgu lle mae'r holl fyfyrwyr yn teimlo'n ddiogel ac yn gallu astudio a chyrraedd eu potensial llawn.

Er mwyn ein helpu yn y dasg hon gofynnwn i chi ein helpu ni drwy:

1. Adrodd am ymddygiad amheus - Mae ymddygiad amheus yn golygu unrhyw weithred sy'n gwneud i rywun deimlo'n ofidus neu'n bryderus. Cofiwch ganolbwyntio ar ymddygiad rhywun, nid eu hymddangosiad.
2. Adrodd am eitem amheus - Eitem amheus yw unrhyw wrthrych sy'n gwneud i berson deimlo'n ofidus neu'n bryderus. Os gwelwch unrhyw beth sy'n amheus yn eich barn chi, adroddwch amdano ar unwaith.
3. Gallwch adrodd unrhyw beth y mae gennych bryderon amdano i'r Tîm Diogelu, Rheolwr y Coleg, aelod o staff y Parth Myfyrwyr neu dderbynnydd y Coleg.

Os bydd argyfwng...

**RHEDWCH**
- Os ydych yn cael eich dal i fyny mewn ymosodiad gwn neu gyllell, RHEDWCH i ddiogelwch
- Peidiwch â gwastraffu amser yn tynnu lluniau neu fideos
- Dywedwch wrth eraill am fynd gyda chi
- Peidiwch â gadael i neb neu unrhyw beth eich arafu
- RHEDWCH i ddiogelwch, dyma eich dewis gorau.

**CUDDIWCH**
- Os na allwch chi redeg, CUDDIWCH
- Clowch eich hun mewn ystafell, gyda waliau solet

**OS** yw'n bosib
- Cadwch i ffwrdd o ffenestri a drysau
- Byddwch yn dawel iawn, tawelwch eich ffôn
- Arhoswch yn gudd nes i chi gael eich achub, gall hyn gymryd peth amser

**DYWEDWCH**
- Dim ond pan fyddwch yn ddiogel, ffoniwch 999 a gofynnwch am yr heddlu
- Dywedwch wrthyn nhw beth sydd wedi digwydd, pwy ydych chi a ble ydych chi
- Atebwch y cwestiynau cystal ag y gallwch.

## HEI, NID YW'N IAWN FY NHRIN FI FEL HYN!

Os ydych chi neu rywun rydych yn ei adnabod wedi profi neu weld unrhyw fath o fwlio, aflonyddu, gwahaniaethu, trais ar sail rhywedd, casineb, micro-ymosodedd neu bryder diogelu, gallwch roi gwybod amdano drwy ddefnyddio eich cyfrif e-bost y coleg ac e-bostio **itsnotOKtotreatmethisway@nptcgroup.ac.uk**


Bydd aelod o dîm llesiant neu ddiogelu'r coleg yn dod yn ôl atoch i roi cymorth ac i fynd ar drywydd eich pryder. Bydd y tîm yn darparu cymorth cyfrinachol, ymarferol ac emosiynol.

## DIOGELU

Lles a diogelwch myfyrwyr yw'r peth pwysicaf bob amser ac mae gennych hawl i deimlo'n ddiogel. Os yw rhywun yn eich brifo/eich cam-drin, ni ddylech:
- deimlo'n chwithig neu ar eich pen eich hun
- teimlo mai chi sy'n gyfrifol neu eich bod ar fai

# AELODAU TÎM DIOGELU • SAFEGUARDING TEAM

AELODAU TÎM DIOGELU • SAFEGUARDING TEAM • AELODAU TÎM DIO



Llywodraethwr sydd â Chyfrifoldeb dros Ddiogelu

**Jill Harding**



Dirprwy Berson Dynodedig ar gyfer Diogelu

**Mari Shufflebotham**
Pennaeth Cymorth i Fyfyrwyr
0330 818 9263
mari.shufflebotham@nptcgroup.ac.uk



Person Dynodedig ar gyfer Diogelu


**Siân Jones**
Pennaeth Cynorthwyol: Cymorth a Chynhwysiad Myfyrwyr
0330 818 9001
sian.jones@nptcgroup.ac.uk




Rheolwr Cynorthwyol: Diogelu a Chydnerthedd

**Mandy Mellor**
Coleg Castell-nedd
0330 818 9073
mandy.mellor@nptcgroup.ac.uk

## Campysau Powys




**Rhian Davies**
Coleg Bannau Brycheiniog
0330 818 8256
rhian.davies@nptcgroup.ac.uk




**Kevin Morris**
Coleg Bannau Brycheiniog
0330 818 9109
kevin.morris@nptcgroup.ac.uk




**Steve Cass**
Coleg Y Drenewydd
0330 818 8189
steve.cass@nptcgroup.ac.uk




**Katherine Jones**
Coleg Y Drenewydd
0330 818 8486
katherine.jones@nptcgroup.ac.uk




**Victoria Lloyd-Jones**
Coleg Y Drenewydd
0330 818 9049
victoria.lloyd-jones@nptcgroup.ac.uk



**Helen Summers**
Coleg Y Drenewydd
0330 818 9280
helen.summers@nptcgroup.ac.uk



**Hannah Pritchard**
Coleg Y Drenewydd
0330 818 9190
hannah.pritchard@nptcgroup.ac.uk



**Bridget Royce**
Coleg Y Drenewydd
0330 818 9232
bridget.royce@nptcgroup.ac.uk



**Chay Billen**
Coleg Bannau Brycheiniog
0330 818 9154
chay.billen@nptcgroup.ac.uk

## Camfanteisio ar Blant a Diogelu Ar-lein



**Clare Cluer**
Coleg Bannau Brycheiniog
0330 818 8201
clare.cluer@nptcgroup.ac.uk



**Emma Price-Estevens**
Coleg Castell-nedd
0330 818 9188
emma.price-estevens@nptcgroup.ac.uk

## Campysau Castell-nedd Port Talbot



**Phil Jones**
Coleg Afan
0330 818 8497
phill.jones@nptcgroup.ac.uk



**David Rush**
Coleg Castell-nedd
0330 818 9247
david.rush@nptcgroup.ac.uk




**Sali-Ann Millward**
Academi Chwaraeon Llandarcy
0330 818 9082
sali-ann.millward@nptcgroup.ac.uk




**Lindsay Piper**
Academi Chwaraeon Llandarcy
0330 818 9177
lindsay.piper@nptcgroup.ac.uk



**Kayleigh Davies**
Coleg Castell-nedd
0330 818 8245
kayleigh.davies@nptcgroup.ac.uk



**Chloe Dennedy**
Coleg Castell-nedd
0330 818 8266
Chloe.dennedy@nptcgroup.ac.uk




**Eleri Pinner**
Coleg Castell-nedd
0330 818 9057
eleri.pinner@nptcgroup.ac.uk



**Rhiannon Simms**
Academi Chwaraeon Llandarcy
0330 818 9265
rhiannon.simms@nptcgroup.ac.uk



**Edward Jones**
Coleg Castell-nedd
0330 818 8475
edward.jones@nptcgroup.ac.uk




**Lowri Jenkins**
Coleg Afan
0330 818 8434
lowri.jenkins@nptcgroup.ac.uk



**Natalie Joseph**
Coleg Castell-nedd
0330 818 9007
natalie.joseph@nptcgroup.ac.uk




**Victoria Burroughs**
Coleg Castell-nedd
0330 818 8384
victoria.burroughs@nptcgroup.ac.uk




**Andrea Houlihan**
Coleg Castell-nedd
0330 818 8403
andrea.houlihan@nptcgroup.ac.uk




**Jo Mather**
Coleg Castell-nedd
0330 818 9060
joanne.mather@nptcgroup.ac.uk




**Ken O'Grady**
Coleg Castell-nedd
0330 818 9492
kennethogrady@nptcgroup.ac.uk




**Natalie Sambrook**
Coleg Castell-nedd
0330 818 9248
natalie.sambrook@nptcgroup.ac.uk



**Kelly Phillips**
Coleg Castell-nedd
0330 818 9166
kelly.phillips@nptcgroup.ac.uk



**Sarah Phillips**
Coleg Castell-nedd
0330 818 9436
sarah.phillips@nptcgroup.ac.uk



**Lisa Rees**
Coleg Castell-nedd
0330 818 9209
lisa.rees@nptcgroup.ac.uk

GRŴP COLEGAU NPTC GROUP OF COLLEGES

Ebost:
**safeguarding@nptcgroup.ac.uk**

- ei gadw'n gyfrinach
- teimlo ofn

Os ydych chi'n bryderus neu'n poeni amdanoch chi eich hun neu rywun rydych chi'n ei adnabod, siaradwch â'ch tiwtor, galwch heibio i'r Parth Myfyrwyr neu e-bostiwch: **safeguarding@nptcgroup.ac.uk**

## TÎM DIOGELU

Mae aelodau o'r tîm yn gwisgo lanyards melyn a gallwch fynd atyn nhw unrhyw bryd os ydych chi'n pryderu neu'n poeni am eich lles neu'ch diogelwch. I gysylltu'n gyfrinachol â'r tîm, gyrrwch e-bost **safeguarding@nptcgroup.ac.uk**

## DATGANIAD CYFRINACHEDD

Perchir cyfrinachedd wrth ddelio â materion myfyrwyr yng Ngrŵp Colegau NPTC. Fodd bynnag, mae rhai amgylchiadau lle na ellir gwarantu cyfrinachedd.

Y rhain yw:

- os ydych o dan 18 oed neu'n 'oedolyn agored i niwed' ac mae'r mater a drafodir yn ymwneud ag unrhyw fath o gam-drin
- os ydych dros 18 oed, mae'r mater a drafodwyd yn ymwneud â cham-drin ac mae brodyr a chwiorydd iau mewn cysylltiad â'r camdriniwr a allai fod mewn perygl
- Os byddwch yn datgelu bwriad i niweidio eraill neu eich hun

## BWLIO AC AFLONYDDU

Nid yw Grŵp Colegau NPTC yn goddef aflonyddu na bwlio ar unrhyw gyfrif.

Os ydych yn cael eich bwlio a/neu eich aflonyddu ar unrhyw adeg neu os ydych yn gwybod am unrhyw un sy'n cael ei drin fel hyn gan fyfyrwyr neu aelodau o staff, dylech roi gwybod i'ch tiwtor personol/cydlynydd cwrs/neu un o aelodau staff y Parth Myfyrwyr ar unwaith. Mae gwybodaeth am beth i'w wneud os ydych yn cael eich bwlio neu'ch aflonyddu i'w gweld yn y Polisi Bwlio ac Aflonyddu ar Moodle.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn ymddwyn mewn ffordd aeddfed a chyfrifol ac yn trin eich gilydd â pharch ac urddas.

Mae manylion sut i gael mynediad at y polisi Bwlio ac Aflonyddu ar gael ar Moodle.

## BETH I'W WNEUD OS AIFF PETHAU O CHWITH?

Ein nod yw cael pethau'n iawn y tro cyntaf, felly rydym yn gwerthfawrogi sylwadau ac awgrymiadau ein myfyrwyr. Er bod gennym amrywiaeth o ddulliau ymgynghori ac adborth i randdeiliaid i helpu i lywio a gwella ein gwasanaethau, weithiau mae'n bosib na fydd ein gwasanaeth yn cyrraedd y disgwyliadau. Felly, rydym yn gwerthfawrogi unrhyw gwynion a dderbyniwn ac yn eu cymryd o ddifri. Mae hyn yn cynnwys rhai dienw, ar yr amod bod gennym ddigon o wybodaeth i ni allu gwneud ymholiadau pellach.

Mae manylion Polisi a Gweithdrefn Gwynion y Coleg ar gael ar ein gwefan i bawb a hefyd ar Moodle i'n myfyrwyr. Mae gan y ddau leoliad ein Taflen Gwynion ar gyfer myfyrwyr sy'n manylu ar y drefn. Mae ffurflenni cwynion dwyieithog ar gael o'n derbynfeydd, ond gellir gwneud cwynion drwy yrru e-bost i **complaints@nptcgroup.ac.uk**

Gallwch gwyno'n bersonol, dros y ffôn, yn ysgrifenedig, drwy e-bost neu drwy ddefnyddio ein ffurflen gwyno sydd ar gael o'n desgiau derbyn. Gallwch hefyd roi caniatâd i rywun gwyno ar eich rhan. Os oes angen cymorth arnoch i lenwi'r ffurflen, gall staff yn eich Parth Myfyrwyr helpu.

## CARDIAU ADNABOD A LANYARDS Y COLEG

**MAE'N OFYNNOL I FYFYRWYR A STAFF WISGO CARDIAU ADNABOD BOB AMSER.**

Pan fyddant yn y coleg, bydd staff a myfyrwyr yn cael lanyard a cherdyn adnabod y mae'n rhaid ei wisgo bob amser, fel y gellir adnabod y rhai sydd â hawl i fod ar y safle'n gyflym. Bydd methu â gwisgo lanyard/cerdyn adnabod y coleg yn arwain at gamau disgyblu. Mae cardiau adnabod coll, wedi'u difrodi neu wedi'u dwyn yn costio £5 i'w hamnewid.

Mae manylion sut i gael mynediad at y polisi Cardiau Adnabod a Lanyards ar gael ar Moodle.

## CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

Ein nod yw darparu amgylchedd dysgu cynhwysol a chefnogol sy'n galluogi pawb i gyrraedd eu potensial personol. Rydym yn croesawu myfyrwyr o bob cefndir a gallu, beth bynnag fo'u hil, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth o ran rhywedd, crefydd a chred, anabledd, neu oedran. I gael cyngor, arweiniad neu gymorth, cysylltwch â **diversity@nptcgroup.ac.uk**.

Mae manylion sut i gael mynediad at y polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar gael ar Moodle.

## IECHYD A DIOGELWCH

Mae dyletswydd ar Grŵp Colegau NPTC o dan y gyfraith Iechyd a Diogelwch i sicrhau, cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol, iechyd, diogelwch a lles myfyrwyr tra eu bod yn y coleg. Mae a wnelo iechyd a diogelwch â sicrhau nad ydych yn cael eich brifo nac yn mynd yn sâl tra byddwch yn y coleg. Gellir dod o hyd i'r Polisi Iechyd a Diogelwch ar Moodle. Mae gan y Coleg ganllawiau a rheoliadau ynghylch diogelwch. Mae rhai rhannau o'r Coleg yn cynnwys offer peryglus a sylweddau peryglus. Gofynnir i chi lynu wrth bob hysbysiad a chod ymarfer.

Mae manylion sut i gael mynediad at y polisi Iechyd a Diogelwch ar gael ar Moodle.



## GADAEL MEWN ARGYFWNG

- Mae gan bob rhan o'r Coleg weithdrefnau gadael mewn argyfwng a thân
- Mae gwybodaeth am beth i'w wneud os bydd tân wedi'i harddangos ym mhob rhan o'r Coleg, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth
- Mae'n ofyniad cyfreithiol arnom i gynnal ymarferion tân yn rheolaidd a hefyd profi ein systemau larwm tân yn wythnosol. Gellir dod o hyd i fanylion y profion wythnosol ar y gwahanol gampysau.

## GWEITHDREFNAU GADAEL OS BYDD TÂN AR GYFER MYFYRWYR

Os ydych yn darganfod tân, torrwch y gwydr yn y blwch gwydr agosaf.

- Rhowch wybod i aelod o staff ffonio 999 ar unwaith os ydych yn clywed y larymau tân neu'n gweld y goleuadau'n fflachio:
- Gadewch yr ystafell ar unwaith, peidiwch â stopio i gasglu eiddo personol
- Ewch yn ddigynnwrf at y llwybr ymadael tân agosaf (dangosir y rhain gydag arwyddion gwyrdd o berson yn rhedeg).
- **Peidiwch** â cheisio defnyddio'r lifftiau, defnyddiwch y grisiau
- I'r bobl hynny sydd angen cymorth wrth adael mewn argyfwng – ewch i'r ardal ddynodedig agosaf.
- Os oes angen, bydd staff hyfforddedig yn eich helpu i adael yr adeilad
- Ewch i'ch pwynt Ymgynnull dynodedig ac arhoswch yno
- Peidiwch â gadael y Pwynt Ymgynnull
- Peidiwch â cheisio gyrru unrhyw gerbyd o'r meysydd parcio yn ystod argyfwng tân
- Peidiwch â dychwelyd i'r adeilad hyd nes y cewch gyfarwyddyd gan y Marsial Tân
- Arhoswch am gyfarwyddiadau gan eich aelod staff dynodedig os oes gennych Gynllun Personol Gadael mewn Argyfwng (PEEPS).

Os ydych yn debygol o gael anhawster wrth adael yr adeilad mewn argyfwng, sicrhewch fod tiwtor eich cwrs yn cael gwybod ar ddechrau'r tymor, fel y gellir rhoi cynllun personol (PEEP) ar waith.

## ADRODD AM DDAMWEINIAU

Dylid rhoi gwybod am bob damwain a digwyddiad i'ch tiwtor, a fydd yn eich helpu i gwblhau ffurflen ddigwyddiad briodol y coleg.

## CYMORTH CYNTAF

Mae gan y Coleg dîm o weithwyr cymorth cyntaf cymwys sydd ar gael pe bai angen triniaeth arnoch ar gyfer mân anhwylderau ac anafiadau. Cysylltwch â'r Dderbynfa am restr lawn o swyddogion cymorth cyntaf.

## MATERION AMGYLCHEDDOL A CHYNALADWYEDD

- Mae'r Coleg wedi ymrwymo i arbed ynni a diogelu'r amgylchedd
- Dylai pob aelod o staff a myfyriwr fod yn 'Ymwybodol o Ynni a Chynaladwyedd' i helpu'r Coleg i fod yn llesol i'r amgylchedd ac i gyrraedd targedau Carbon Sero Net
- Mae biniau ailgylchu ar bob campws ar gyfer staff a myfyrwyr er mwyn ailgylchu papur, plastigau, caniau a chardbord

## POLISI DIM YSMYGU

Mae polisi dim ysmygu ar waith ar gyfer pob campws. Mae hyn yn cynnwys y tu mewn a'r tu allan i'n hadeiladau.

Mae manylion sut i gael mynediad at y polisi ysmygu ar gael ar Moodle.

## PARCIO

Mae nifer cyfyngedig o leoedd parcio ar safleoedd y coleg felly parciwch yn ystyriol yn y mannau dynodedig.

Mae gan bob safle fannau parcio anabl a darparu a rheseli beic.

Peidiwch â rhwystro allanfeydd tân na llwybrau mynediad cerbydau argyfwng a chadwch at y terfyn cyflymder 10mya.

## EIDDO AR GOLL AC WEDI'I DDARGANFOD

Peidiwch byth â gadael pethau gwerthfawr heb oruchwyliaeth. Dylid gwneud unrhyw ymholiadau yn ymwneud ag eiddo sydd ar goll neu wedi'i ddarganfod wrth ddesgiau derbynfa'r Coleg.

## YMWADIAD

Ni fydd Grŵp Colegau NPTC yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw ddifrod neu golled o ran eiddo personol myfyriwr ar unrhyw un o safleoedd y coleg. Gallwch yswirio eich eiddo personol yn erbyn colled/difrod eich hun os ydych yn dymuno.

# LLEFYDD I FWYTA

Mae brecwast ar gael am ddim i bob myfyriwr wrth ddangos eu cerdyn myfyriwr.

## COLEG CASTELL-NEDD:

The Brook, Bloc D, 8.30am - 3.00pm

Mae Caffi'r Brook yn gweithredu cynnig gafael a mynd gan gynnwys brecwast llawn rhwng 8.30am ac 11am. O 11am ymlaen gweinir cinio gan gynnwys pasta, pasteiod, cyri, a pizzas etc.

Starbucks - The Brook, Bloc D,
Dydd Llun - Dydd Gwener: 8.30am - 3.00pm

Starbucks - Bloc A,
Dydd Llun - Dydd Iau 8.30am - 4.30pm
Dydd Gwener 8.30am - 3pm

Caffi 73, Bloc C, 8.30am - 1.30pm

Mae Caffi 73 yn cynnig brecwast llawn o 8.30am. Coffi wedi'i fragu'n ffres, paninis wedi'u coginio'n ffres - mae'n dywed y cyfan!



## COLEG AFAN:

Y Ffreutur, Dydd Llun - Dydd Gwener: 8.30am - 2.00pm

Mae brecwast llawn cynnes ar gael rhwng 8.30am ac 11.30am mae detholiad o brydau cartref wedyn yn cael eu gweini gan gynnwys pasta, lasagne a chinio rhost traddodiadol. Salad a thatws pob wedi'u paratoi'n ffres.

### Caffi 53 Starbucks

Dydd Llun - Dydd Iau: 9.00am - 4.00pm
Dydd Gwener: 9.00am - 3.00pm

Gan gynnig diodydd wedi'u paratoi'n ffres yn null Starbucks.




## COLEG BANNAU BRYCHEINIOG:

Ffreutur: Dydd Llun - Dydd Gwener: 8.30am - 1pm

Gan gynnig brecwast llawn o 8.30am bob dydd, yna prydau cartref ffres o 11.30am.

## CAFFI Y GAER

Dydd Llun - Dydd Gwener: 8.30am – 5.30pm

Ein caffi newydd yng nghanol y dref, o fan hyn byddwn yn gwasanaethu'r Coleg ac aelodau'r cyhoedd. Byddwn yn cynnig teisennau wedi'u pobi'n ffres, cacennau cartref a brechdanau a salad wedi'u teilwra i'r cwsmer. Coffi wedi'i fragu'n ffres a rostiwyd yma yng Nghymru gan gefnogi busnesau lleol.

## COLEG Y DRENEWYDD:

Ffreutur Siop Goffi Starbucks: Dydd Llun - Dydd Gwener, 8.30am tan 2.30pm

Gan gynnig y profiad siop goffi llawn gyda phrydau wedi'u paratoi'n ffres ar gael bob dydd. A hynny heb anghofio brecwast llawn o 8.30 yn y bore.

## TALIADAU

Gellir talu trwy gerdyn neu'n ddigyffwrdd gyda'ch ffôn symudol, rydym yn derbyn arian parod ond mae'n well gennym ddigyffwrdd. Mae gan bob peiriant gwerthu gyfleusterau digyffwrdd.

Fel adran, rydym yn ceisio lleihau ein heffaith amgylcheddol. Rydym eisoes yn cynnig ein holl gynhyrchion tecawê mewn cartonau y gellir eu compostio'n uniongyrchol. Y llynedd fe wnaethom roi dros 2000 o gwpanau ailddefnyddiadwy wedi'u gwneud o blastig a ailgylchwyd. Mae ein cyllyll a ffyrc tafladwy wedi'i wneud o bambŵ, OND ni allwn ei wneud ar ein pennau ein hunain. Mae angen i chi ein cefnogi, a thrwy newid cwpl o arferion gallwn ni i gyd wneud newid.

- Defnyddiwch lestr os yw ar gael yn lle cynhwysydd tafladwy.
- Dewch â'ch cwpan ailddefnyddiadwy eich hun.
- Ailgylchwch eich sbwriel yn y biniau cywir.

Gan weithio ar gyfartaledd o 3000 o staff a myfyrwyr ar y safle ar draws yr holl gampysau. Pe bai pawb ar bob un o'r campysau yn prynu 1 coffi y dydd am wythnos gan ddefnyddio cwpan ailddefnyddiadwy byddem yn arbed:

15000 o gwpanau untro
552.66kg o Garbon Deuocsid
49.50kg o blastig
14217mj o ynni
337.5kg o bren.

Mae ychydig o newid heddiw yn mynd ymhell yfory.

## GWASANAETHAU ARBENIGOL Y COLEG

Er mwyn creu amgylcheddau gwaith realistig i fyfyrwyr, darperir nifer o gyrsiau galwedigaethol gydag ardaloedd gwaith arbenigol megis salonau hyfforddi proffesiynol y gall pob myfyriwr elwa ohonynt. Mae'r rhain yn cynnwys:

### ACADEMI TRIN GWALLT, GWAITH BARBWR A THERAPÏAU CYMHWYSOL LEE STAFFORD

Lee stafford
EDUCATION

Mae'r triniwr trin gwallt enwog arobryn, Lee Stafford, yn parhau i syfrdanu trinwyr gwallt a myfyrwyr lleol gyda'i frwdfrydedd a'i ddawn mewn gweithdai dosbarth meistr unigryw a gynhelir yn Academi Trin Gwallt, Barbwr a Therapïau Cymhwysol Lee Stafford.

Mae Academi Lee Stafford ar gael yng Ngholegau Afan, Bannau Brycheiniog a'r Drenewydd, a hi yw'r unig un o'i math yng Nghymru, sy'n cynnig hyfforddiant unigryw i siopau trin gwallt a dosbarthiadau meistr eithriadol na allant eu cael yn unman arall.

Nod yr Academi yw sicrhau mai myfyrwyr Grŵp Colegau NPTC yw'r rhai mwyaf cyflogadwy yn y wlad; fel steilwyr, technegwyr lliw neu mewn unrhyw faes trin gwallt o'u dewis. Mae salonau trin gwallt a harddwch y Coleg ar agor i fyfyrwyr y Coleg a'r cyhoedd. Maent yn cynnig ystod eang o driniaethau gwallt a harddwch gydag ymgynghoriadau am ddim. Cynigir prisiau gostyngol i fyfyrwyr.

### SIOP Y BECWS

Mae myfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau pobi yng Ngholeg Castell-nedd yn pobi bara, teisennau a phasteiod sy'n cael eu gwerthu bob dydd yn Siop Becws y Coleg. Mae llawer o fyfyrwyr a staff yn manteisio ar y cynnyrch ansawdd uchel sydd ar werth am brisiau rhesymol. Mae amrywiaeth o frechdanau, byrbrydau a bargeinion bwyd ffres ar gael. Gall myfyrwyr ddefnyddio eu lwfans prydau am ddim yn y becws.

### CYFLEUSTERAU CHWARAEON

Mae gan y Coleg gyfleusterau chwaraeon cynhwysfawr yn Academi Chwaraeon Llandarcy sy'n cynnig neuadd chwaraeon dan do gyda wal ddringo, ardal gynhesu a thrac ffinio, ardal gemau amlddefnydd (MUGA) a chae 3G. Yn ogystal â hynny mae Campfa cryfder a chyflyru ac ardal buarth hyfforddi dan do.



Mae'r cyfleusterau hyn ar gael i fyfyrwyr sy'n dilyn rhaglenni Chwaraeon a Gwasanaethau Cyhoeddus, yn ogystal â chan yr holl fyfyrwyr yng Nghlybiau Chwaraeon ac Academïau'r Coleg.

### MEITHRINFA DDYDD LILLIPUT, COLEG CASTELL-NEDD

Mae Meithrinfa Ddydd Lilliput yn adeilad pwrpasol a leolir ar y safle. Mae'r feithrinfa wedi'i chofrestru gyda, ac yn cael ei harolygu gan Arolygiaeth Gofal Cymru (A.G.C.), o dan Ddeddf Plant 1989, i ddarparu gofal diwrnod llawn neu rannol ar gyfer plant rhwng 12 wythnos a 7 mlwydd 11 mis oed. Mae'r holl staff yn Nyrsys Meithrin cwbl gymwysedig a phrofiadol. Mae'r Feithrinfa ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener, rhwng 7.30 am a 6pm ac yn cynnig lleoedd gofal plant i blant myfyrwyr, staff y Coleg a'r gymuned ehangach.

Nod Meithrinfa Ddydd Lilliput yw darparu gofal dydd o safon uchel sy'n gwella datblygiad, gofal ac addysg plant mewn amgylchedd diogel, ysgogol a gofalgar, lle maent yn dysgu drwy chwarae mewn partneriaeth â rhieni/gofalwyr. Mae Meithrinfa Ddydd Lilliput yn dilyn mentrau Llywodraeth Cymru drwy roi'r Cyfnod Sylfaen, y Cynllun Gwên a'r Cynllun Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy ar waith. Mae'r Feithrinfa'n aelod o Blynyddoedd Cynnar Cymru.
Am wybodaeth bellach e-bostiwch Meithrinfa Ddydd Lilliput **lilliputdaynursery@nptcgroup.ac.uk**
neu ffoniwch ni ar **0330 818 8039**

Mae'n bosib y bydd Cronfa Ariannol Wrth Gefn (CAWG) y Coleg ar gael i gefnogi myfyrwyr gyda chostau gofal plant.

Am ragor o wybodaeth, gyrrwch e-bost:
**studentsupport@nptcgroup.ac.uk**

GRŴP COLEGAU NPTC GROUP OF COLLEGES

Chwilio NPTC GROUP